Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk

Cyngor Tref Llandeilo Fawr
Llandeilo Fawr Town Council

Cofnodion Pwyllgor Cyllid Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ddydd Mercher 14eg, Mawrth, 2007 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 8 pm

Presennol: Cyng Pam Steane Price, Dirprwy Faer Cyng Richard Wallace, Cyng Colin Jenkins, Cyng Dawn Wallace, Cyng Ieuan Gwyn, Cyng Edward Thomas, Cyng Roy Davies
Mr Roger Phillips Clerc y Dref, Mr Christopher Plummer, Swyddog Cyllid, Mr Des Davies, Swyddog Technegol.

Ymddiheuriadau : Cyng Hugh Towns

Cof 216 / Mawrth / 07 Anfonebau i'w talu.

WCVA (Gweinyddiaeth Chwefror) £ 34.66.
WCVA (Cyflogau Chwefror) £ 159.76
Cynigiodd y Cyng Ieuan Gwyn y dylid talu'r rhain. Eiliwyd gan y Cyng Richard Wallace.
CSC – Taliadau Ynni 1/12/06-31/3/07 £ 268.98
Cynigiodd y Cyng Richard Wallace y dylid talu hwn. Eiliwyd gan y Cyng Edward Thomas.

Cof 217 / Mawrth /07 Incwm Dderbyniwyd Chwefror 2007

Hysbysebu Tân Gwyllt £ 1,323.06
CSC Cyfrif Rhif 1 (Grant Neuadd y Sir) £26,506.90
Llog cyfrif cyfredol £ 1.11

Cof 218 / Mawrth / 07 Balansau'r Cyfrifon

Cofnodwyd a **Derbyniwyd** yr adroddiad canlynol o gyllid y Cyngor:

LTC CYFRIF CYFREDOL (28.3.07) £ 46,223.85
LTC CYFRIF CYNILO (31.12.06) £ 2,963.28
LTC CYFRIF TREULIAU'R MAER (20.02.07) £ 915.31

Gwelwyd bod y Cyfrif Cyfredol yn uchel, a gwnaed argymhelliad i drosglwyddo arian i'r cyfrif Cynilo mewn cyfarfod o'r Cyngor Llawn ar Fawrth 28ain.

Cof 219 / Mawrth / 07 Materion Ariannol Eraill

1. Adnoddau Swyddfa a Staff.
a) Desg Swyddfa / Stand Llungopïwr. Cytunwyd y dylai'r Clerc ddod o hyd i gostau o'r cwmni Advantage sydd wedi cyflenwi celfi ar gyfer y Siambr.
b) Arwyneb gwaith mewn cegin. Mr Dilwyn Thomas, saer i gynnig costau erbyn cyfarfod Mawrth 28ain.
c) Cluniaduron i Swyddogion.

Cynigiwyd gan y Cyng Edward Thomas y dylid paratoi datganiad i'w ystyried er mwyn cyfiawnhau y gofyniad hwn o ran angen a chost. Eiliwyd gan y Cyng Roy Davies.

2. Rhagolygon Cyllidebol Tair Blynedd.
Tynnodd y Swyddog Cyllid sylw'r Cyngor at y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran Rhoddion i gyfanswm o £4000. Trosglwyddir y £8536 a glustnodwyd i'r Ardd Gymunedol ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf.

3. Ceisiadau am Gymorth Ariannol
   i) Cangen Llandeilo o Sefydliad Badau Achub Cenedlaethol Brenhinol.
   ii) Canolfan Gynghori Rhydaman a'r Cylch
   iii) Treialon Cŵn Defaid y Byd 2008
   iv) Cruse Sir Gaerfyrddin
   Cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins y dylid gadael y ceisiadau hyn tan y flwyddyn ariannol nesaf, ac y dylid anfon llythyr at bob mudiadau yn egluro. Eiliwyd hyn gan y Cyng Edward Thomas.

Cof 220 / Mawrth / 07 Gohebiaeth Parthed Cyllid

1. Un Llais Cymru – ffioedd aelodaeth ar gyfer 2007-8. Gadael tan gyfarfod mis Ebrill.
2. Aelodaeth Rheilffordd Calon Cymru. Gadael tan gyfarfod mis Ebrill.
3. Eisteddfod Ryngwladol Llangollen. Llythyr o ddiolch am y rhodd a anfonwyd a chynnig dau docyn am ddim. Caiff y rhain eu hystyried yng nghyfarfod o'r Cyngor Llawn.

Cof 221 / Mawrth / 07 Unrhyw eitemau eraill o fusnes sydd am resymau arbennig, yn ôl penderfyniad y Cadeirydd yn haeddu sylw brys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.
Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 8.50pm.